TAG UG/UWCH

2000N30-1

Z22-2000N30-1

**DYDD MAWRTH, 24 MAI 2022 – PRYNHAWN**

# CYMRAEG: IAITH GYNTAF – UG uned 3
## Defnyddio Iaith, a Barddoniaeth (Papur Ysgrifenedig)

2 awr

**DEUNYDDIAU YCHWANEGOL**

Llyfryn ateb 16 tudalen CBAC (pinc).
Llyfryn 2000N30-1A sy'n cynnwys copïau o'r cerddi.

**CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR**

Defnyddiwch inc neu feiro du.

Atebwch y **ddau** gwestiwn.

Ysgrifennwch eich atebion yn y llyfryn ateb sy'n cael ei roi i chi.

Pan fo gofyn i chi fynegi barn neu safbwynt, dylech roi eich rhesymau drostynt a chyfeirio at farn eraill lle bo'n briodol.

Bydd y marcio yn ystyried ansawdd eich iaith a'ch mynegiant yn eich atebion.

Dylech dreulio 45 munud ar Adran A ac 1 awr 15 munud ar Adran B.

Dylech dreulio 15 munud yn cynllunio eich traethawd yn Adran B.

**Ni chaniateir defnyddio geiriaduron yn yr arholiad hwn.**

**GWYBODAETH I YMGEISWYR**

Mae nifer y marciau sydd ar gael wedi ei nodi mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn.

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

## ADRAN A

### Defnyddio Iaith

**1.** Atebwch **bob** rhan o'r cwestiwn hwn. Cewch eich gwobrwyo am greu brawddegau sy'n ieithyddol gywir.

(a) Defnyddiwch y canlynol mewn brawddegau gwreiddiol, **un** ymhob brawddeg, i ddangos yn eglur eu hystyron a'u defnydd:

cerddai
arnynt
y bydd [6]

(b) Darllenwch y darn sydd yn y blwch isod ac atebwch gwestiynau (i) – (iii). Yn dilyn hynny, atebwch gwestiynau (iv) – (vii).

| |
|---|
| Yng Nghaerdydd, mae tua **<u>chant</u>** o drigolion yn ardal Glan yr Afon wedi gadael eu cartrefi wedi i Afon Taf orlifo ei glannau yn hwyr neithiwr. Dywedodd arweinydd Cyngor y **<u>Ddinas</u>** … |

(i) Edrychwch ar y **ddau air** sydd mewn print trwm ac wedi eu tanlinellu ac eglurwch yn llawn y rheswm pam maent wedi eu treiglo. [2]

(ii) Chwiliwch am enghreifftiau o'r canlynol yn y blwch uchod:

rhagenw
berfenw
enw priod [3]

(iii) Lluniwch **gymal enwol negyddol** i ddilyn y prif gymal *'Dywedodd arweinydd Cyngor y Ddinas . . .'* Dylai'r cymal fod yn addas ar gyfer gorffen y frawddeg ond ni ddylech ddefnyddio araith uniongyrchol neu ddyfyniad. [2]

(iv) Isod mae dau bâr o frawddegau. Rhaid i chi ddefnyddio cymalau addas i gyfuno'r ddwy frawddeg ym mhob pâr i greu brawddeg newydd sy'n cyfleu'r un ystyr. Gwnewch hyn ar gyfer I a II.

I Aeth y canolwr i'r ystafell newid. Cafodd y canolwr ei yrru oddi ar y cae.

II Rhys Williams sy'n traddodi'r ddarlith eleni. Y rheswm bod Rhys Williams yn traddodi'r ddarlith yw iddo ennill y brif wobr am ymchwil gwyddonol. [2]

(v) Mae **un** arddodiad anghywir yn cael ei ddefnyddio ym mhob un o'r brawddegau hyn. Ailysgrifennwch y frawddeg gan ddefnyddio arddodiad cywir.

I Cael a chael fu hi i'r dewin ddianc o'r ddraig ddychrynllyd a galw am gymorth.

II Er mwyn achub y cyfle i ymuno â'r cwrs 'Gwerthfawrogi Barddoniaeth' dylech gysylltu â'r swyddfa a gofyn wrth Idris Owen am fwy o fanylion. [2]

(vi) Mae **dau** wall yn y frawddeg isod. **Lluniwch dair colofn:** yn y golofn gyntaf nodwch y camgymeriad, yn yr ail cywirwch ef, ac yn y drydedd nodwch eich rheswm dros gywiro.

Roedd y clwb rygbi wedi bwriadu trefnu taith tramor eleni, ond ar ddiwedd y dydd ni fu hynny'n bosibl oherwydd y gost. [4]

(vii) Ailysgrifennwch y neges ganlynol gan ei gwneud yn un fwy amrywiol ei brawddegau. Gallwch uno brawddegau, os dymunwch. Cewch gychwyn un frawddeg yn unig gyda *'Bydd'*.

Bydd clyweliadau'n cael eu cynnal ar gyfer prif rannau'r sioe gerdd 'I'r Gad!'. Bydd y clyweliadau'n digwydd ddydd Llun nesaf am bedwar o'r gloch. Bydd angen canu cân. Gallwch ddewis y gân eich hunan. Bydd cyfeilydd swyddogol ar gael. Gallwch ddefnyddio cyfeilydd o'ch dewis chi. [4]

[25]

## ADRAN B

### Barddoniaeth

**2.** Ysgrifennwch draethawd ar **un** o'r canlynol.

Wrth ateb, dylech gofio:

- trafod y tair cerdd wrth ymateb i ofynion y cwestiwn
- dadansoddi arddull
- cymharu gweithiau'r beirdd lle bo'n briodol
- defnyddio termau beirniadaeth lenyddol a dyfyniadau.

**Naill ai**

(a) Mae barddoniaeth yn gyfrwng i feirdd ystyried pynciau pwysig a darganfod **gobaith** i'r dyfodol. **Trafodwch** a **chymharwch** faint o obaith sydd gan Ifor ap Glyn, Grahame Davies a Menna Elfyn yn eu cerddi hwy. Dylech gyfeirio at **gynnwys** y cerddi a'u **harddull**. [40]

**Neu**

(b) Cymharwch gerddi Iwan Llwyd, Karen Owen a Gerallt Lloyd Owen gan fanylu ar y ffordd maent yn defnyddio **unigolion penodol** i gyfleu eu neges. Dylech gyfeirio at **gynnwys** y cerddi a'u **harddull.** [40]

**DIWEDD Y PAPUR**